



UK Government

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Cynllun Buddsoddi Lleol Sir Gaerfyrddin

1.0 RHAGARWEINIAD

- 1.1 Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn biler canolog o raglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a bydd yn darparu cyllid dros y 3 blynedd nesaf hyd at fis Mawrth 2025. Bydd pob rhan o'r DU yn cael dyraniad o'r Gronfa drwy fformiwla cyllid yn hytrach na chystadleuaeth. Gellir defnyddio ei gymysgedd o gyllid refeniw a chyfalaf i gefnogi ystod eang o ymyriadau i feithrin balchder a gwella cyfleoedd bywyd.
- 1.2 Mae cyfanswm Cronfa ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys cyllid 'craidd', a fydd yn ariannu'r rhan fwyaf o Flaenoriaethau'r Gronfa a'r rhaglen Lluosi sy'n canolbwyntio ar gefnogi mentrau rhifedd oedolion. Mae'r dyraniad ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth fel a ganlyn:

	CFfGDU	Multiply	Cyfanswm
Rhanbarth y De-orllewin	£113,985,414	£17,970,430	£131,955,844
Sir Gaerfyrddin	£32,002,918	£5,045,437	£37,048,355
Castell-nedd Port Talbot	£28,448,295	£4,485,031	£32,933,326
Sir Benfro	£19,125,971	£3,015,315	£22,141,286
Abertawe	£34,408,230	£5,424,647	£39,832,877

- 1.3 Bydd y cyllid hwn yn cael ei fuddsoddi ar draws tair blaenoriaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU erbyn 31 Mawrth 2025:
- Cymunedau a lle: galluogi lleoedd i fuddsoddi er mwyn adfer eu manau cymunedol a'u perthnasoedd a chreu'r sylfeini ar gyfer datblygiad economaidd ar lefel y gymdogaeth, helpu i gryfhau gwedd cymdeithasol cymunedau, gan gefnogi meithrin balchder mewn lle.
 - Cymorth i fusnesau lleol: galluogi lleoedd i ariannu ymyriadau sy'n cefnogi busnesau lleol i ffynnu, arloesi a thyfu.
 - Pobl a sgiliau: cyllid i helpu i leihau'r rhwystrau y mae rhai pobl yn eu hwynebu i gyflogaeth a'u cefnogi i symud tuag at gyflogaeth ac addysg. Gall lleoedd hefyd dargedu cyllid i sgiliau ar gyfer ardaloedd lleol i gefnogi cyflogaeth a thwf lleol.
- 1.4 Mae cwmpas y Rhaglen yn ehangach na chronfeydd blaenorol yr UE, ond gyda chyllideb lai cyfatebol. Ni ellir defnyddio'r Rhaglen i ddisodli darpariaeth statudol.
- 1.5 Yng Nghymru, mae Llywodraeth y DU yn cefnogi darpariaeth ar draws y pedair ardal ddaearyddol strategol ranbarthol ar yr ôl troed datblygu economaidd. Mae llywodraeth leol wedi cael cyfrifoldeb am ddatblygu cynllun buddsoddi rhanbarthol i'w gymeradwyo gan Lywodraeth y DU, ac am gyflwyno'r Gronfa wedi hynny. Bydd 'awdurdod lleol arweiniol' ar gyfer y rhanbarth yn derbyn dyraniad y Rhanbarth a bydd ganddo

atebolrwydd cyffredinol am y cyllid a sut mae'r Gronfa'n gweithredu. Mae Cyngor Abertawe wedi'i enwebu i weithredu fel yr Awdurdod arweiniol ar ran rhanbarth y De-orllewin.

2.0 Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol

- 2.1 Er mwyn cael mynediad at eu dyraniad, gofynnwyd i awdurdodau lleol arweiniol gwblhau Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol, yn nodi sut y maent yn bwriadu defnyddio a darparu'r cyllid ar lefel uchel iawn. Cyflwynwyd y cynllun buddsoddi hwn i Lywodraeth y DU ym mis Awst 2022.
- 2.2 Oherwydd yr amserlenni byr, paratôdd pob awdurdod lleol gynllun buddsoddi lleol sydd wedi bwydo i mewn i'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ehangach hwn ar gyfer De-orllewin Cymru.
- 2.3 Mae angen ystyried y ddogfen Cynllun Buddsoddi Lleol hon ar y cyd â'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol wrth gyflwyno ceisiadau am gyllid i Sir Gaerfyrddin.
- 2.3 Cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol gan Lywodraeth y DU ar 5 Rhagfyr 2022.

2.0 BLAENORIAETH BUDDSODDI CYMUNEDAU A LLEOEDD

2.1 Heriau Lleol

Prif Heriau:

- Mae mynediad at wasanaethau yn her mewn rhai achosion oherwydd dwysedd poblogaeth is a natur wledig.
- Lefel uwch na'r cyfartaledd o'r rhai yr ystyrir eu bod mewn grwpiau ymylol - gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, niferoedd sylweddol o aelwydydd yn byw mewn tlodi a lefelau uwch na'r cyfartaledd o'r rhai sy'n byw ag anabledau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu hirdymor (gan gynnwys iechyd meddwl).
- Cynnydd mewn cyfraddau troseddau mewn rhai ardaloedd.
- Sectorau strategol allweddol yn adfer o effeithiau'r pandemig, yn benodol y sectorau Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant.
- Mae ardaloedd o'r sir yn agored i effeithiau negyddol yr argyfwng hinsawdd, yn enwedig llifogydd.
- Canol trefi yn ceisio adfer ar ôl cyfnodau o ddirywiad.

Nodwedd Sir Gaerfyrddin gan nifer gymharol uchel o aneddiadau gwasgaredig wedi'u hangori gan dair prif dref; Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman. Yn gartref i dros 190,000 o bobl, ¹hi yw'r 4^{edd} sir fwyaf yng Nghymru o ran maint y boblogaeth ac mae ganddi ddwysedd poblogaeth cymharol isel o 80.2.

Mae topograffeg Sir Gaerfyrddin yn un sy'n creu nifer o heriau a chyfleoedd dilynol, ac archwiler y rhai mwyaf perthnasol isod yng nghyd-destun rhai themâu allweddol;

Natur wledig

Mae natur wledig Sir Gaerfyrddin yn un o'i nodweddion diffiniol, nid ond oherwydd yr amcangyfrifir bod 61% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig² ond hefyd oherwydd ei bod yn gwasanaethu i greu tirwedd naturiol sy'n gyfystyr â hunaniaeth Sir Gaerfyrddin fel lle. Gall natur wledig ardaloedd achosi sawl her, fodd bynnag, un o'r rhai mwyaf perthnasol yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin yw darparu gwasanaethau a'r mynediad dilynol at y gwasanaethau hynny. Manylir isod ar y prif ffactorau sy'n cyfrannu at y pwysau cynyddol hwn;

- Mae dwyseddau poblogaeth is yn ei gwneud yn anodd cyflawni arbedion maint cymharol, gall hyn gynnwys nifer isel o gwsmeriaid am wasanaethau i'w cefnogi, gan wneud costau darparu yn ddud yn ogystal â chyfyngu ar gyfleoedd ymgysylltu posibl.
- Mae pellteroedd teithio mawr yn cynyddu'r amser a'r gost ar gyfer cyrchu gwasanaethau, gall hyn rwystru gallu unigolyn i deimlo'n gysylltiedig â'i gymunedau, gwaethygu unigedd a lleihau teimladau o falchder a pherthyn lleol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i grwpiau ymylol³.

¹ [Amcangyfrifon poblogaeth fesul awdurdod lleol a blwyddyn \(llyw.cymru\)](#)

² Archwilio'r Rhagolygon Arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin -

³ [Cynllun Rhanbarthol Sgiliau a Chyflogaeth 2019 \(flipbuilder.com\)](#)

- Mae cysylltedd digidol gwael a phroblemau gyda'r 'filltir olaf o gysylltedd' yn parhau i fod yn her sylweddol i lawer yn ein hardaloedd mwyaf gwledig, er bod hyn wedi gwella rhywfaint yn y blynyddoedd diwethaf.⁴

I gydnabod yr heriau hyn crëwyd menter y deg tref i ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi adferiad a thwf trefi gwledig a'r ardaloedd cyfagos. Mae cynlluniau unigol a grëwyd ar gyfer pob un o'r trefi hyn yn amlygu cyfleoedd i wella cysylltiadau ffisegol, diwylliannol a chymdeithasol ac amwynderau trwy ganolbwyntio buddsoddiad i greu lleoedd o safon y mae pobl eisiau byw, gweithio, chwarae a dysgu ynddynt.

Grwpiau Ymylol

Grwpiau Incwm Isel

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn awgrymu bod 35.6% o holl aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi ⁴, lefel sydd wedi cynyddu 0.9% dros y deng mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cyfateb i tua 29,444 o aelwydydd, sy'n awgrymu bod 582 o aelwydydd pellach wedi llithro o dan y trothwy incwm dros y deng mlynedd diwethaf.⁵

Mae 24 o wardiau yn Sir Gaerfyrddin yn dangos lefelau tlodi uwch na'r cyfartaledd sirol sy'n awgrymu y gallai effeithiau tlodi a'r argyfwng costau byw fod yn fwy difrifol yn yr ardaloedd hyn. Mae'r wardiau hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r rhai a nodwyd fel y rhai mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ddiweddaraf.

Mae cyfleoedd clir yma i gyflwyno ymyriadau wedi'u targedu yn y gymuned i fynd i'r afael â'r heriau tebygol a brofir yn yr ardaloedd hyn.⁶ Mae hyn nid yn unig yn cynnwys sicrhau bod gan y grwpiau hyn fynediad at gyfleusterau gwella llesiant a manau agored, ond mae hefyd yn ymestyn i gymryd rhan mewn mesurau cymunedol i leihau costau byw a chael budd ohonynt.

Poblogaeth Hŷn

Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio, ac mae 11% o boblogaeth y sir dros 75 oed (yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 9.7%). Gall y boblogaeth hon sy'n heneiddio roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau, felly mae helpu pobl i heneiddio'n dda a byw bywydau mor annibynnol â phosibl yn her, ac yn gyfle.

Ystyriaeth allweddol yn hyn o beth yw sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad at sefydliadau diwylliannol, hanesyddol a threftadaeth bresennol i leddfu effeithiau ynysu. Mae hyn yn ymestyn i sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad at gyfleusterau chwaraeon lleol i fwynhau gweithgareddau priodol a pherthnasol i gynyddu lles.

⁴ Cyfanswm incwm aelwydydd llai na 60% o ganolrif incwm Prydain Fawr

⁵Gwiriad Talu CACI - 2021

⁶Tyisha, Felin-foel, Llwynhendy, Rhydaman, Glanymôr, Cwarter Bach, Llanymddyfri, Dafen, Bigyn, De Caerfyrddin, Glanaman, Porth Tywyn, Trimsaran, Lliedi, Llanybydder, y Garnant, Cydweli, Pontyberem, Elli, Cenarth, Gogledd Tref Caerfyrddin, Pontaman, Llanfihangel-ar-arth, Tre-lech.

Yn ogystal, mae cyfraddau pobl hŷn mewn tlodi yn cynyddu, credir yn rhannol fod hyn o ganlyniad i unigolion yn dechrau ymddeol heb ddigon o gynilion neu enillion. Mae hyn yn cael ei waethygu gan gostau byw cynyddol ac yn cael ei gymhlethu gan y ffaith mai ychydig iawn o gyfle sydd gan bensiynwyr i gynyddu eu hincwm i wrthweithio'r effeithiau hyn. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos mai pensiynwyr sydd leiaf tebygol o wirio pa fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae'n hollbwysig felly bod pobl hŷn yn gallu elwa ar fesurau cymunedol i leihau costau byw.

Anabledd a Chyflyrau Iechyd

Mae Sir Gaerfyrddin yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o unigolion ag anableddau neu gyflyrau iechyd. Mae'n arbennig o bwysig felly bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod yr unigolion hyn yn gallu gwneud cyfraniadau cadarnhaol i'w cymunedau lleol a mwynhau'r gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae cyfleoedd yma i sicrhau bod gwelliannau a wneir i ddatblygiadau presennol (neu greu datblygiadau newydd) yn cael eu dylunio gyda'r unigolion hyn mewn golwg. Mae hwn yn fater mynediad ac yn fater perthnasedd.

Yn ogystal, mae unigolion o'r grŵp hwn yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan yr argyfwng costau byw ac felly mae cyfleoedd yma i gefnogi'r unigolion hyn trwy eu cynnwys mewn datblygiadau sydd wedi'u cynllunio i leddfu'r effeithiau hyn (fel y nodir uchod).

Ers y pandemig, bu cymhlethdod cynyddol o ran anghenion cymorth a welwyd gyda phroblemau iechyd meddwl, gan gyfrannu at unigolion sydd angen cyfnodau o gymorth hwy a mwy dwys.

Mae llawer o dystiolaeth sy'n cadarnhau'r effeithiau cadarnhaol y gall y dirwedd naturiol ac adeiledig eu cael ar les, gan wasanaethu i wrthweithio effeithiau dinistriol materion iechyd meddwl ar unigolion a'u teuluoedd. Mae cyfleoedd clir yma i ystyried dyluniad ymyriadau yn y gymuned a gwelliannau a wneir i hygyrchedd y gwasanaethau hyn.

Amgylchedd a Datblygiadau Gwyrdd

Nid yw'r argyfyngau hinsawdd a natur yn heriau unigryw i Sir Gaerfyrddin, fodd bynnag, gwerthfawrogi bod tirwedd naturiol Sir Gaerfyrddin yn addas iawn ar gyfer datblygiadau Gwyrdd ac y gellir ac y dylid gwneud mwy i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Yr uchelgais yw creu seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, cwmpasu safleoedd posibl ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar lefel leol a datblygu sylfaen sgiliau a gweithlu dilynol sydd wedi'u paratoi ar gyfer yr economi Werdd. Mae hyn yn cyd-fynd (ond heb fod yn gyfyngedig i) y fenter deg tref a grybwyllwyd uchod.

Mae ardaloedd penodol o'r sir yn agored i lifogydd yn ystod cyfnodau o law trwm, ac mae effeithiau hyn wedi bod yn ddinistriol i'r cymunedau hynny yr effeithiwyd arnynt. Yn erbyn cefndir o argyfwng hinsawdd sy'n gwaethygu, mae cyfleoedd clir yma i wella seilwaith trwy ymyriadau cymunedol a chymdogaeth i wella gwydnwch yn hyn o beth.

Mae cyfle pellach i harneisio potensial yr economi gylchol lle mae ei ddulliau gweithredu yn elfen allweddol o'r agenda sero net ond mae ganddi lawer o elfennau (o ailosod, atgyweirio, ail-wneud trwy ddylunio a gweithgynhyrchu cynaliadwy i ystyriaethau o adnoddau naturiol a defnydd tir). Yn ogystal, gellir defnyddio dull yr economi gylchol hefyd i ymgysylltu â thrigolion

a chodi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd a'r agenda datgarboneiddio.⁷ Mae cyfleoedd clir yma i archwilio ymarferoldeb dull o'r fath yn Sir Gaerfyrddin.

Yn ogystal, mae dwysedd poblogaeth a thopograffeg cymharol isel y sir yn awgrymu bod cyfleoedd i greu a gwella mannau gwyrdd presennol gan roi ystyriaeth arbennig i sut mae gwella mynediad at y mannau hyn i grwpiau ymylol, yn benodol y rhai a nodir uchod.

Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant

Mae gweithgareddau diwylliannol a thwristiaeth yn sbardun pwysig i'r sir, o ran cyflogaeth a chyfraniad economaidd. Cyn y pandemig gwelodd y sir y flwyddyn orau erioed i dwristiaeth gyda dros 3 miliwn o ymwelwyr yn cynhyrchu dros £515 miliwn i'r economi leol. Yn hyn o beth mae'r sir yn gwneud yn dda i fanteisio ar y dirwedd naturiol ddeniadol sydd ar gael ond mae cyfleoedd ar gyfer twf pellach.

Mae'r cyfleoedd hyn yn ymwneud yn benodol â chryfhau'r hyn sy'n frand lleol (gan adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i fathu fel 100% Sir Gâr) a chanolbwyntio ar wneud y profiad o economi yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran meithrin ymdeimlad o falchder mewn lle i bobl leol ond hefyd i wneud Sir Gaerfyrddin yn lle deniadol i aros ynddo yn y lle cyntaf ond hefyd i ddychwelyd ato dro ar ôl tro. Byddai hyn yn gwella gwytnwch y sector a busnesau, pobl a sefydliadau dilynol sy'n dibynnu ar yr economi ymwelwyr. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod gweithgareddau hamdden a diwylliannol yn allweddol i sicrhau bod gennym lesiant cadarnhaol ac yn helpu i leddfu unigrwydd a darparu ymdeimlad o bwrpas. Mae cynyddu mynediad i gyfleusterau o'r fath hefyd yn flaenoriaeth allweddol i'r Sir.

Mynediad at Wasanaethau

Mae 21.4% o ardaloedd cynnyrch Ehangach Is y Sir wedi'u nodi ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019). Mae hyn yn bennaf oherwydd natur wledig y Sir. Mae'r trydydd sector yn chwarae rhan arwyddocaol wrth ddarparu gwasanaethau a chyrraedd trigolion bregus y Sir sydd wedi bod yn arbennig o amlwg yn ystod y pandemig. Mae cyfleoedd i ehangu ac adeiladu ar rôl y trydydd sector o ran darparu gwasanaethau effeithiol sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac i gefnogi ymhellach newidiadau strwythurol o fewn y sector.

Trosedd

Mae'r sir yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn y DU, gyda Sir Gaerfyrddin yn y 9fed safle mwyaf diogel o'r 22 sir yng Nghymru gyda chyfradd o 65.18 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth.

Fodd bynnag, o'r 10% (190) o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae chwech yn Sir Gaerfyrddin o ran Diogelwch Cymunedol. Nid yw'n syndod bod y rhain yn cwmpasu tair ardal gymunedol ein tair tref fwyaf; Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman.⁸ Mae cyfleoedd yma i ddatblygu ymyriadau cymunedol wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf. Mae hyn yn ymestyn i fanteisio ar yr amgylchedd adeiledig a thirluniol sydd eisoes ar gael ac archwilio ffyrdd y gellir eu defnyddio i ddod o hyd i atebion arloesol i leihau trosedd, yn enwedig ymddygiad gwrthgymdeithasol.

⁷ Archwilio'r Rhagolygon Arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin

⁸ [1-asesiad-llesiant.pdf \(ysirgaragarem.cymru\)](#)

Canol Trefi

Mae ein tair prif dref; Rhydaman, Llanelli a Chaerfyrddin yn ogystal â'n trefi marchnad wledig yn sbardunau economaidd pwysig ac yn cael eu hystyried yn angorau o ran creu ymdeimlad o le yn y sir. Yn dilyn cyfnodau o ddirywiad (sefyllfa a waethygydd gan y pandemig), mae gwella bywiogrwydd canol y trefi hyn yn gyfle amlwg. Bydd buddsoddiad i'r perwyl hwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr ac yn creu ymdeimlad o gynwysoldeb, yn enwedig o ran y grwpiau ymylol y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol. Mae hyn hefyd yn bwysig o safbwynt datblygu economaidd ac mae ganddo aliniad cryf â'r flaenoriaeth buddsoddi busnes ategol.

Y Gymraeg

Thema trosfwaol allweddol i'w hystyried wrth fanteisio ar y cyfleoedd a grybwyllwyd uchod yw'r Gymraeg. Mae hyn yn ymestyn i ddiogelu, hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn, gan gydnabod ei phwysigrwydd o ran creu ymdeimlad o le i Sir Gaerfyrddin a'i phobl. Mae hyn yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i gael 1 filiwn o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg erbyn 2050 a mwy o uchelgeisiau strategol lleol ar lefel Sir Gaerfyrddin.

2.2 Cyfleoedd Lleol

Yn ogystal â'r cyfleoedd lleol a nodir ochr yn ochr â'r heriau yn yr adran uchod, mae llawer o gyfleoedd wedi'u nodi yn y strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a restrir isod, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae Sir Gaerfyrddin yn eu hwynebu.

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Cenhadaeth 1: Arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero net

Gan edrych at 2030, ein nod yw gwneud De-orllewin Cymru yn arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy. Mae hynny'n golygu manteisio ar ein hasedau naturiol a'n galluoedd diwydiannol ac ymchwil a datblygu i adeiladu presenoldeb o bwys rhyngwladol mewn technolegau tanwydd yn y dyfodol ac i ysgogi datgarboneiddio ein sylfaen ddiwydiannol a'r economi eang.

Camau Gweithredu Allweddol:

- Gallu ychwanegol i lywio'r agenda yn ei blaen
- Datblygu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mawr y rhanbarth
- Denu a llywio buddsoddiad diwydiannol yn ei flaen
- Datgarboneiddio trafndiaeth a'r stoc tai

Cenhadaeth 2: Adeiladu sylfaen fusnes gref, wydn sydd wedi'i hymgorffori.

“Mae busnes yn ganolog i'n strategaeth hyd at 2030. Trwy ehangu'r cwmnïau presennol a sefydlu a denu rhai newydd y bydd swyddi newydd yn cael eu creu a thwf cynhyrchiant yn cael ei sicrhau. Mae hynny'n golygu cefnogi twf busnes cynaliadwy – sydd ar flaen y gad o ran technoleg ac arloesi ac ar draws yr economi.”

Camau Gweithredu Allweddol:

- Cymorth o ran mabwysiadu ac arloesi carlam (yn gysylltiedig ag argymhellion Cymru 4.0 mewn perthynas â chymorth busnes, sgiliau ac arloesi)
- 'Caffael blaengar' o fewn system datblygu cadwyn gyflenwi a busnes lleol

Cenhadaeth 3: Tyfu a chynnal cynnig 'profiad' De-orllewin Cymru

“Mae De-orllewin Cymru yn mwynhau amgylchedd gwych a chynnig o 'ansawdd bywyd' unigryw. Mae hwn yn ased allweddol i'r rhanbarth, ac yn un y mae'n rhaid i ni ei warchod a'i wella. Byddwn yn gwneud De-orllewin Cymru yn adnabyddus am ansawdd ac ehangder ei 'phrofiad', gan ddod ag ansawdd amgylcheddol trefol a gwledig, 'ansawdd bywyd' a diwylliant ynghyd. Bydd hyn yn cefnogi economi ymwelwyr o werth uchel - ond bydd hefyd dan berchnogaeth leol ac yn rhan ganolog o'n cynnig buddsoddi”.

Camau Gweithredu Allweddol:

- Buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu a'i gydlynu, gan gynnwys yng nghanol trefi a dinasoedd
- Cydbwysu mentrau ar raddfa ranbarthol, leol a chymunedol

Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (FRIW)

- **Blaenoriaeth 1: Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol**

“Rydym am ysgogi adferiad a ffyniant drwy gefnogi entrepreneuriaid, busnesau newydd a busnesau i greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n adlewyrchu egwyddorion Gwaith Teg Cymru. Byddwn yn helpu busnesau i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu a chryfhau cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau a mentrau cymdeithasol o bob maint, yn enwedig busnesau micro i ganolog eu maint. Mae hyn yn cynnwys cefnogi busnesau yn eu hymdrechion i greu neu wella eu cyfran o'r farchnad allforio.”

- **Blaenoriaeth 2: Lleihau'r Ffactorau sy'n Arwain at Anghydraddoldeb Economaidd**

“Rydym am gynyddu nifer y bobl sy'n gallu cymryd rhan mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, y maent yn cael cyflog teg amdano, gan sicrhau bod hwn yn cael ei rannu'n deg ar draws daearyddiaeth a demograffeg, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae tystiolaeth³⁹ yn dangos bod anghydraddoldeb yn cael effaith negyddol ar dwf economaidd a chanlyniadau cymdeithasol. Yn y tymor byr byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi'r rhai sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan effaith economaidd y pandemig Covid, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth ansicr a chyflog isel, menywod, pobl dduon, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig (BAME), a phobl anabl”

- **Blaenoriaeth 3: Cefnogi'r Newid i Economi Ddi-Garbon**

“Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes. Mae'r risgiau'n real i bob dinesydd a busnes ond maent yn fwy o risg i'r rhai sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y newid i economi ddi-garbon yn dod â chyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd glân, ynni-effeithlon, swyddi o ansawdd a manteision i'r farchnad fyd-eang, yn ogystal â buddion i'n hamgylchedd, ein hiechyd, ein cyfalaf naturiol, a'n gwasanaethau ecosystem.”

- **Blaenoriaeth 4: Cymunedau Iachach, Tecach, Mwy Cynaliadwy**

“Mae gweithlu sy’n iach ac yn hapus, a chymunedau sydd wedi’u cysylltu’n dda ac sy’n gryf ac yn wydn, yn asedau economaidd sydd o fudd i bawb. Ni fu’r cysylltiad rhwng llesiant a’r economi erioed yn gliriach. Rydym am helpu i sicrhau bod gan gymunedau lle a phobl y gwydnwch a’r strwythurau sydd eu hangen arnynt, fel y gall y bobl sy’n byw yma fyw bywydau hir, hapus a chyflawni eu potensial i gyfrannu’n gynhyrchiol at ein heconomi a’n cymdeithas.”

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin (CERDP)

- **Thema 1 - Busnes**

“Diogelu ein busnesau presennol, cefnogi busnesau newydd a busnesau sy’n tyfu yn ein sectorau sylfaen a thwf i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol”

- **Thema 2 – Pobl**

“Amddiffyn swyddi, ymateb i ddiweithdra disgwylidig sylweddol, helpu pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi a fydd yn bodoli, a chreu cyflogaeth newydd gyda gwell sgiliau”

- **Thema 3 – Lle**

“Sicrhau dosbarthiad teg o gyfleoedd trwy fuddsoddi yn y seilwaith ac addasu ein hardaloedd twf strategol, canol trefi, yr economi wledig ac adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig”

Pedwar uchelgais blaenoriaeth trawsbynciol:

- Cysylltedd digidol hynod ddibynadwy, diwylliant a sgiliau digidol – gwella cysylltedd, mynd i’r afael â’r heriau cysylltiedig o ran defnyddio ac ymyrryd i wneud gwelliannau mewn cysylltedd digidol nawr ac yn y dyfodol.
- Sgiliau - cefnogi pobl a busnesau i ailhyfforddi, ail-sgilio, a gwella sgiliau trwy gyfuno dysgu traddodiadol, ar-lein a dysgu’n seiliedig ar waith.
- Economi werdd – ychwanegu gwerth economaidd drwy barhau i ddefnyddio adnoddau, a, lle mae gwastraff yn cael ei osgoi, buddsoddi mewn seilwaith carbon isel sy’n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.
- Economi deg a chyfartal a chefnogaeth i’r Gymraeg a’i diwylliant – cefnogi diwylliant a llesiant pobl gyda chyflogaeth leol, deg, weddus a diogel

Archwilio'r Rhagolygon Arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin (EIPC)

Pwrpas yr astudiaeth hon oedd adolygu sefyllfa bresennol Sir Gaerfyrddin a llywio strategaeth arloesi lleol CSC yn y blynyddoedd i ddod. Mae’r 4 cyfle canlynol yn cloi’r adroddiad ac maent wedi deillio o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a dadansoddiadau dogfennol:

- **Cyfle 1** - Digidol: Gwella cysylltedd digidol a manteisio ar gyfleoedd digidol ledled Sir Gaerfyrddin
- **Cyfle 2** - Iechyd: Datblygu labordy byw gwasgaredig
- **Cyfle 3** - Economi Sylfaenol: Caffael bwyd cynaliadwy
- **Cyfle 4** - Economi Gylchol: Defnyddio dull Economi Gylchol ar gyfer yr Agenda Sero Net

2.3 CANLYNIADAU SPF Y DU BLAENORIAETH BUDDSODDI CYMUNEDAU A LLEOEDD

Swyddi wedi'u creu
Swyddi wedi'u diogelu
Cynyddu nifer yr ymwelwyr
Mwy o ymwelwyr
Cyfraddau swyddi gwag is
Gostyngiadau nwyon tŷ gwydr
Gwell hygrychedd canfyddedig/profiadol
Gwell canfyddiad o gyfleusterau/amwynderau
Cynnydd yn nifer yr eiddo sy'n cael eu hamddiffyn yn well rhag llifogydd ac erydu arfordirol
Mwy o bobl yn defnyddio cyfleusterau / amwynderau
Gwell canfyddiad o brosiect cyfleuster/seilwaith
Mwy o ddefnydd o lwybrau beicio neu lwybrau
Cynnydd mewn Bioamrywiaeth
Mwy o fforddiadwyedd digwyddiadau/mynediad
Gwell canfyddiad o ddiogelwch
Gostyngiad mewn troseddau cymdogaeth
Gwell niferoedd ymgysylltu
Gwell canfyddiad o ddigwyddiadau
Cynnydd yn nifer y chwiliadau gwe am le
Niferoedd gwirfoddoli o ganlyniad i gefnogaeth
Nifer y rhaglenni celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol a arweinir gan y gymuned o ganlyniad i gefnogaeth
Mwy o bobl yn defnyddio mesurau effeithlonrwydd ynni
Cynnydd yn nifer y prosiectau yn deillio o astudiaethau dichonoldeb a ariennir
Nifer yr adeiladau sydd â gwell cysylltedd digidol

2.4 YMYRIADAU BLAENORIAETH BUDDSODDI CYMUNEDAU A LLEOEDD

W1: Cyllid ar gyfer gwelliannau i ganol trefi a strydoedd mawr, gan gynnwys gwell hygrychedd i bobl anabl, gan gynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg.

W2: Cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith cymunedol a chymdogaeth newydd neu welliannau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys y rhai sy'n cynyddu gallu cymunedau i wrthsefyll peryglon naturiol, megis llifogydd, a buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol, a rheoli gwastraff i wella'r newid i fyw bywyd carbon isel. Gallai hyn gynnwys gwariant cyfalaf a chostau rhedeg.

W3: Creu a gwella manau gwyrdd lleol, gerddi cymunedol, cyrsiau dŵr ac argloddiau, ynghyd ag ymgorffori nodweddion naturiol a gwelliannau bioamrywiaeth mewn manau cyhoeddus ehangach.

W4: Gwell cefnogaeth i sefydliadau diwylliannol, hanesyddol a threftadaeth presennol sy'n rhan o'r cynnig diwylliannol a threftadaeth lleol, gan gynnwys gwelliannau i fynediad i safleoedd i wrthsefyll effeithiau ynysu, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl.

W5: Dylunio a rheoli'r amgylchedd adeiledig a thirluniol er mwyn 'dylunio i atal trosedd'

W6: Cefnogaeth i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol lleol

W7: Cefnogaeth ar gyfer gwella teithio llesol a phrosiectau seilwaith trafndiaeth werdd eraill ar raddfa fach, gan ystyried Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

W8: Cyllid ar gyfer datblygu a hyrwyddo ymgyrchoedd ehangach a phrofiadau gydol y flwyddyn sy'n annog pobl i ymweld â'r ardal leol a'i harchwilio.

W9: Cyllid ar gyfer prosiectau gwirfoddoli a/neu weithredu cymdeithasol effeithiol i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a dynol mewn mannau lleol

W10: Cyllid ar gyfer cyfleusterau chwaraeon lleol, twrnameintiau, timau a chynghreiriau; i ddod â phobl at ei gilydd

W11: Buddsoddi mewn meithrin capasiti a chymorth seilwaith ar gyfer cymdeithas sifil leol a grwpiau cymunedol

W12: Buddsoddi mewn cynlluniau ymgysylltu â'r gymuned i gefnogi cyfranogiad cymunedol wrth wneud penderfyniadau ar adfywio lleol.

W13: Mesurau cymunedol i leihau costau byw, gan gynnwys drwy fesurau i wella effeithlonrwydd ynni, a brwydro yn erbyn tlodi tanwydd a newid yn yr hinsawdd.

W14: Cyllid i gefnogi astudiaethau dichonoldeb perthnasol

W15: Buddsoddiad a chymorth seilwaith digidol ar gyfer cyfleusterau cymunedol lleol.

2.5 PROSIECTAU POSIBL SYDD DAN FLAENORIAETH BUDDSODDI CYMUNEDAU A LLEOEDD

Gan ymateb i rai o'r heriau a'r cyfleoedd allweddol yn Sir Gaerfyrddin, mae'r syniadau prosiect canlynol wedi'u nodi a fydd yn darparu'r mecanwaith i gymunedau lleol gael cymorth drwy'r SPF o'r cychwyn cyntaf yn ogystal â darparu mynediad rhwydd i sefydliadau llai ar lawr gwlad. Bydd syniadau eraill yn cael eu hystyried.

Cronfa 'Cymunedau Cynaliadwy' – cyllid i gefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned a chymorth i fentrau cymdeithasol a gynlluniwyd i greu cymunedau mwy bywiog a chynaliadwy. Bydd y prosiect yn ariannu amrywiaeth o weithgareddau cyfalaf a referniw, gan gynnwys gweithgaredd pilot, sy'n cefnogi llesiant cymunedau lleol mewn ystod o feysydd o fynediad at wasanaethau, cyfleusterau chwaraeon a hamdden, diwylliant a threftadaeth leol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a newid yn yr hinsawdd.

Cronfa 'Cynnal Canol Trefi' - pecyn ariannu i gefnogi prosiectau cyfalaf ac ymyriadau i ymateb i'r heriau parhaus a wynebir gan Ganol Trefi. Bydd y gronfa ar gael i gefnogi'r gwaith o

gyflawni'r camau gweithredu allweddol a nodwyd yn ein prif gynlluniau adfywio integredig ar gyfer Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman, gan ddarparu cymorth i symud tuag at ganol trefi mwy amrywiol, creu amgylcheddau digidol doeth a chrosawu canol trefi'n fwy gwyrdd a datgarboneiddio.

Cronfa Wledig y Deg Tref - Rhaglen wledig wedi'i thargedu sy'n cefnogi ac yn ehangu ymhellach ar y rhaglen Deg Tref. Cefnogaeth swyddogion ymroddedig i gynorthwyo datblygiad a chynladwyedd trefi marchnad wledig y Sir fel canolfannau economaidd a chymdeithasol sy'n ffynnu. Bydd y prosiect yn darparu capasiti a chymorth ariannol (refeniw a chyfalaf) i gyflawni'r dyheadau a nodwyd yn y cynlluniau adfer a thwf ar gyfer ein 10 tref farchnad wledig.

Bydd y prosiectau'n sicrhau sylw ledled y sir.

Mae gennym brofiad sylweddol o gyflawni cynlluniau grant ac rydym wedi cytuno ar brosesau a gweithdrefnau ar waith. Byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddylunio a datblygu'r grantiau dros y misoedd nesaf.

3.0 CEFNOGI BLAENORIAETH BUDDSODDI BUSNESAU LLEOL

3.1 Heriau Lleol

Y Prif Heriau:

- **Cynhyrchiant isel a GVA**
- **Cyflogau isel – Mae gormod o swyddi nad ydynt yn talu digon**
- **Tangyflogaeth – Mae gormod o bobl yn methu cael mynediad at swyddi sy'n bodloni eu hanghenion**
- **Dibyniaeth ar ficrofusnesau a busnesau bach, ynghyd â chyflogaeth gymharol uchel yn y sector cyhoeddus**
- **Lefel is na'r cyfartaledd o fusnesau'n cychwyn**
- **Busnesau yn gwella yn dilyn y pandemig.**

Busnesau yn Cychwyn⁹

Mae cyfraddau dechrau busnes yn Sir Gaerfyrddin wedi gweld gostyngiad bach yn y blynyddoedd diwethaf o gymharu â chyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol.¹⁰ Mae cyfradd cychwyn busnes llonydd yn rhwystr i dwf ac yn awgrymu diffyg hyder a chapasiti o fewn yr economi. Mae tystiolaeth a amlygwyd mewn gwaith diweddar ar ragolygon Arloesi ar gyfer y sir yn awgrymu bod gallu entrepreneuriaid posibl y sir ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Felly, er bod angen cymorth perthnasol ar fusnesau presennol y Sir, mae angen canolbwyntio hefyd ar greu ecosystem sy'n harneisio'r fflamau entrepreneuriaid presennol a gwneud Sir Gaerfyrddin yn lle deniadol i gychwyn busnes.¹¹

Mae cyfle yn bodoli yn hyn o beth i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar lefel leol i unigolion sydd am ddechrau busnes. Byddai'r cymorth hwn yn ategu'r mentrau cymorth busnes

⁹ [Busnesau newydd, busnesau sydd wedi cau a mentrau gweithredol yn ôl newidyn, ardal a diwydiant \(SIC 2007\) \(llyw.cymru\)](#)

¹⁰ [Busnesau newydd yn ôl ardal a blwyddyn \(llyw.cymru\)](#)

¹¹ Archwilio'r Rhagolygon Arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin (2022)

presennol ac yn ceisio creu lefel o gymorth sy'n hawdd cael gafael arni ac a ddarperir gan unigolion sydd â gwybodaeth amhrisiadwy am y dirwedd fusnes lleol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae gan Sir Gaerfyrddin sylfaen gref o fusnesau cymdeithasol ac mae ganddi'r potensial i ysgogi mwy. Mae ymchwil yn dangos bod busnesau cymdeithasol yn cynnig effaith gymdeithasol ychwanegol a gwerth yng Ngorllewin Cymru gyda chenadaethau sy'n ymwneud yn weithredol â gwella cymunedau lleol, gwella iechyd a lles, mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a chefnogi pobl fregus. Mae cefnogi cymorth cyn-cychwyn/cychwyn newydd a grantiau bach ar gyfer mentrau cymdeithasol cyfnod cynnar felly yn flaenoriaeth allweddol, gan weithio gyda chymunedau ar lawr gwlad i lunio syniadau mentrus sy'n mynd i'r afael â materion economaidd a chymdeithasol yn eu hardal.

Gwydnwch a Chynyddu

Nodweddir y sir gan fentrau micro a bach sy'n cyfrif am 97.2% o gyfanswm demograffeg busnes ar draws y sir. Er eu bod yn sylfaen i ecosystem economaidd a diwylliannol y sir ac yn darparu cyflogaeth i 36,000 o bobl ¹², mae eu trosiant blyneddol cyfunol o £2,121 miliwn yn sylweddol is na'r £3,609 miliwn a gynhyrchir gan 430 (2.8%) o fentrau canolog a mawr y sir.¹³

Os ydym am wireddu twf economaidd nodedig a chynyddu cynhyrchiant, mae angen canolbwyntio ar gefnogi'r busnesau hyn i uwchraddio gan gynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr yn ogystal â busnesau bach a chanolog traddodiadol. Trwy ddefnyddio'r sylfaen gyfoethog sydd eisoes yn bodoli byddwn yn cynyddu gwariant lleol ac yn harneisio'r potensial ar gyfer twf mwy lleol mewn cyfoeth a llesiant cymunedol, gan dynnu ynghyd fusnes, pobl a lle. Mae busnesau cymdeithasol yn gyflogwyr da sy'n aml yn darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl yr ystyrir eu bod bellaf o'r gweithle ac maent fel arfer yn cyflogi pobl sy'n agos iawn at ganolfan y busnes. Mae cyfleoedd i ddatblygu twf yn y sector hwn ymhellach. Mae'r uchelgeisiau hyn yn cyd-fynd â'r rhai a nodir yng Nghynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin.

Mae gorddibyniaeth ar fentrau micro a bach yn cyflwyno heriau unigryw i'r sir ac mae angen mecanweithiau cymorth busnes sydd wedi'u targedu, ond eto'n hyblyg ac sy'n ystyried y set unigryw o heriau a rhwystrau sy'n wynebu'r busnesau hynny rhag cynyddu. Mae'r rhain yn cynnwys;

- Recriwtio a chadw talent – Mae sawl sector wedi wynebu heriau recriwtio a chadw yn dilyn y pandemig. Mae anhawster cael mynediad at y sgiliau cywir, yn y lle iawn, ar yr amser iawn, yn llesteirio gallu busnes i fodloni'r galw ac, mewn rhai achosion, arallgyfeirio eu gwasanaeth neu'r hyn a gynigir ganddynt.
- Mynediad at gyllid a buddsoddiad – Gall y dirwedd cymorth ariannol fod yn gymhleth i fusnesau llai ei llywio. Heb adnodd pwrpasol sy'n chwilio am y cyfleoedd hyn mae llawer o fusnesau bach yn colli allan ar y cymorth ariannol sydd ar gael.
- Sicrhau arbedion maint – Mae'n anoddach i fusnesau llai gyflawni arbedion maint gan nad oes ganddynt yr adnoddau a'r cyfalaf i fanteisio ar y buddion a gyflwynir, mewn llawer o achosion mae'r risgiau'n llawer mwy na'r manteision o archwilio'r opsiynau hyn, yn syml oherwydd eu maint.
- Manteisio ar gyfleoedd caffael – Mae llawer o fusnesau bach yn sôn am rwystrau rhag manteisio ar gyfleoedd caffael lleol. Mae gwybodaeth sylfaenol a gasglwyd yn ddiweddar yn awgrymu bod llawer o fusnesau'n gweld y broses yn gymhleth, neu nad oes ganddynt y sgiliau a'r gallu i ymgymryd â'r broses gwneud cynigion. Mae hyrwyddo

¹² [Trosiant yn ôl band maint, ardal a blwyddyn \(llyw.cymru \)](#)

¹³ [Trosiant yn ôl band maint, ardal a blwyddyn \(llyw.cymru \)](#)

caffael blaengar yn y sir yn amcan allweddol i Sir Gaerfyrddin, gyda ffocws ar adeiladu cyfoeth cymunedol.¹⁴

- Mynediad at eiddo addas – Cydnabyddir bod mynediad at eiddo modern a phriodol yn cynnig mantais gystadleuol i fusnesau, gan ddarparu mynediad i gwsmeriaid ac seilwaith a fydd yn cefnogi'r busnes i dyfu a datblygu.
- Mynediad at dechnoleg a gwneud gwell defnydd ohoni - Mae cysylltedd digidol yn flaenoriaeth gyffredinol i Sir Gaerfyrddin ac mae'n sbardun allweddol i sicrhau twf economaidd. Mae sicrhau bod gan fusnesau fynediad at gysylltedd digidol tra-gyflym a hynod ddibynadwy yn hanfodol, ac er bod cynnydd wedi'i wneud o ran nodi problemau darpariaeth ar draws yr hyn sy'n sir wledig yn bennaf, mae gwaith yn parhau i ymyrryd a gwella cysylltedd lle mae'r angen yn bodoli. Bydd hyn yn sicrhau bod busnesau'n gallu gweithredu a chystadlu'n hyderus mewn economi fyd-eang wrth gadw eu canolfan yn Sir Gaerfyrddin.

Dull Dwy-haen

Er nad yw'r heriau uchod yn gyfyngedig i fusnesau o unrhyw un maint, sector neu fath, rydym yn cydnabod bod angen i'r dull o gyflawni twf ganolbwyntio ar y cryfderau sylfaenol sy'n bodoli eisoes.

Roedd cynhyrchiant y pen yn Sir Gaerfyrddin yn 2020 yn 17,299, ffigur sy'n sylweddol is na chyfartaledd y DU, sef 28,894.¹⁵ Dau ddull sylfaenol o gynyddu GYC a chynhyrchiant y gellir eu cyflawni ar yr un pryd yw;

Lleoliaeth

Mae'r economi sylfaenol yn elfen hollbwysig o hunaniaeth economaidd Sir Gaerfyrddin ac yn gwneud cyfraniad digyffelyb at lesiant cymdeithasol. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan y niferoedd uchel o fusnesau sy'n gweithredu o fewn sectorau yr ystyrir eu bod yn rhai sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i; Cyfanwerthu, Manwerthu, Cludiant, Gwestai, Bwyd a Chyfathrebu. Mae'r 3,130 o fusnesau sy'n gweithredu o fewn y sectorau hyn yn unig wedi trosi £2,441 miliwn ac yn cyflogi dros 20,000 o bobl.¹⁶ Mae sectorau ehangach ychwanegol yn cynnwys; Adeiladu a Thwristiaeth, ill dau yn sbardunau economaidd a chyflogaeth allweddol o fewn y sir. Felly, ni ellir diystyru pwysigrwydd yr economi sylfaenol i'r sir. Teimlwyd effeithiau'r pandemig yn ddifrifol gan fusnesau sy'n gweithredu o fewn y sectorau hyn ac er bod adferiad yn mynd rhagddo'n dda, mae heriau'n parhau.

Bydd y cyfleoedd a gynigir drwy'r dull lleoliaeth yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf perthnasol, gan sicrhau bod y busnesau hyn yn cael eu cefnogi i gael mynediad at y sgiliau cywir ar yr amser cywir, yn cael mynediad at fwy o fuddsoddiad cyfalaf, yn cael mynediad at well seilwaith ac yn gwneud gwell defnydd o dechnoleg. Bydd hyn yn eu diogelu, gan feithrin twf cynaliadwy a mwy o wytnwch.

Cystadleurwydd

Er ei bod yn hollbwysig cynyddu lefel cynhyrchiant a chystadleurwydd ar draws yr economi leol gyfan, mae sawl sector wedi'u nodi fel rhai sydd â mantais gystadleuol. Mae'r mwyafrif y tu allan i'r economi sylfaenol draddodiadol ac yn cynnig y potensial mwyaf ar gyfer

¹⁴Adeiladu cyfoeth cymunedol yn Sir Gaerfyrddin – hyrwyddo caffael blaengar – Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Economiâu Lleol

¹⁵[Gwerth Ychwanegol Crynswth \(£ y pen\) fesul ardal a blwyddyn \(llyw.cymru \)](#)

¹⁶[Mentrau fesul diwydiant \(SIC2007\), band maint ac ardal \(llyw.cymru \)](#)

cynhyrchiant uwch, cyflogau uwch, lefelau twf uwch a photensial cyflogaeth uwch. Mae harneisio potensial y sectorau hyn yn rhan annatod o fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau mwyaf perthnasol i dwf ar gyfer y sir, yn fwyaf nodedig;

- Cyflogau Isel - Mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer 2021 yn dangos bod y cyflog wythnosol cyfartalog yn Sir Gaerfyrddin yn £547.50, sy'n amlwg yn is na chyfartaledd Cymru (£562.80)¹⁷ ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DU (£610.70)¹⁸.
- Patrymau Cyflogaeth - Mae'r cyflogau cyfartalog is hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â lle mae cyflogaeth wedi'i chrynhoi yn Sir Gaerfyrddin, gyda mwy o bobl ar gyfartaledd yn gweithio mewn meysydd galwedigaethol sy'n tueddu i gynnig cyflog is a llai o gyflogaeth sicr. Bydd ysgogi twf o fewn y busnesau hyn felly yn llywio'r newid naturiol yn y farchnad lafur, gan ganiatáu i fwy o fusnesau gynnig cyflogaeth gynaliadwy ac ystyrlon sy'n talu'n dda.

Y sectorau a nodir o fewn y garfan hon yw;

Bwyd-amaeth (rhan o'r economi sylfaenol a'r garfan mantais gystadleuol)

Mae'r sector bwyd-amaeth yn strategol bwysig i'r sir oherwydd ein tirwedd naturiol, adnoddau a threftadaeth a hanes trwyth y sector. Er bod amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn un o'r sectorau cyflogaeth llai, mae'r gyfran sy'n gweithio yn y sir bron ddwywaith y cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru.¹⁹

Yn sbardun pwysig i'r economi wledig mae'n perfformio'n dda, fodd bynnag cydnabyddir bod angen cymorth i arloesi a manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan dechnolegau newydd a marchnadoedd newydd, wrth warchod yr amrywiaeth eang o fathau o ffermydd y mae'r sir yn gartref iddynt.

Fel y nodir yn 'Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen', mae Brexit wedi bod yn arbennig o heriol i'r sector, gan achosi ansicrwydd ynghylch masnach a'r strwythur polisi/cyllid yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae ystyriaethau hefyd i'r sector o ran goblygiadau'r targed Sero Net ar gyfer Amaethyddiaeth a Defnydd Tir.²⁰

Gweithgynhyrchu Uwch

Mae'r sylfaen gweithgynhyrchu yn Sir Gaerfyrddin yn gryf, ond mae'r sector wedi wynebu rhai heriau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a cheir tystiolaeth o golli rhai busnesau mawr allweddol yn y sir.

Cydnabyddir y dylid darparu cymorth i wella gwydnwch busnesau sy'n gweithredu yn y maes hwn. Mae hyn yn ymestyn i ganolbwyntio ar wella busnes, datblygu'r gadwyn gyflenwi leol i wrthweithio effeithiau materion cyflenwi a chymorth i fanteisio i'r eithaf ar gyllid i gefnogi arallgyfeirio (yn enwedig mewn perthynas â thechnoleg newydd).

Diwydiannau Creadigol

¹⁷ [Enillion wythnosol gros cyfartalog \(canolrif\) yn ôl gwlad yn y DU - rhanbarth yn Lloegr a blwyddyn \(£\)](#)

¹⁸ [Enillion fesul awr gros cyfartalog \(canolrif\) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn \(£\)](#)

¹⁹ Archwilio'r Rhagolygon Arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin

²⁰ [symud-sir-gar-wledig-ymlaen-adroddiad-terfynol.pdf \(llyw.cymru\)](#)

Mae'r Diwydiannau Creadigol yn sector pwysig sy'n tyfu yn y sir. Mae datblygiad diweddar 'Yr Egin' yng Nghaerfyrddin yn gweithredu fel angor yn hyn o beth a'i fwriad yw denu buddsoddiad a darparu man cydweithio i fusnesau sy'n gweithredu o fewn y gofod hwn.

Er bod hyn yn wir, cydnabyddir bod y sector wedi'i nodweddu gan lefelau uwch na'r cyfartaledd o hunangyflogaeth a gweithwyr llawrydd, felly mae angen datblygu a darparu cymorth gyda hyn mewn golwg. Mae cyfle allweddol yma i gefnogi'r cwmnïau a'r unigolion bach hyn i fanteisio i'r eithaf ar gyllid, cyrchu cyfleoedd a datblygu eu gwytnwch yn dilyn cyfnod heriol sylweddol oherwydd y pandemig.

Economi Werdd

Mae'r economi werdd yn ystyriaeth bwysig yn enwedig o ran lleoliad busnesau presennol a newydd i allu ymateb a manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir. Elfen bwysig o hyn yw sicrhau y gall busnesau fanteisio ar wybodaeth, hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi.²¹ Mae hyn yn arbennig o bwysig i fusnesau sy'n gweithredu o fewn y sectorau Adeiladu a Gweithgynhyrchu.

Iechyd, Gofal a Gwyddor Bywyd

Mae iechyd a llesiant yn feysydd sy'n cynrychioli her a chyfleoedd i Sir Gaerfyrddin. Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio ag anghenion cynyddol gymhleth sy'n arwain at ofnion cynyddol am driniaeth arbenigol. Er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn mewn ardal lle mae 61% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig mae angen darparu gofal iechyd yn lleol mewn ffordd fwy arloesol. Yn hyn o beth, mae'r cyfleoedd i gefnogi darpariaeth gwasanaethau ac achub y blaen ar waethygu cyflwr yn niferus, felly mae angen cymorth ar fusnesau i allu manteisio ar y cyfleoedd hyn, gan ddarparu gwasanaethau gwell i'n pobl yn eu tro a chynyddu twf.

Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn ystyriaeth bwysig o ran cymorth busnes ac ar lefel sirol mae llawer o waith wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i gefnogi busnesau i wella a manteisio ar eu harlwy Cymraeg. Cydnabyddir y gellir gwneud mwy yn y maes hwn, felly, lle bo'n bosibl ac yn berthnasol, dylid parhau i gefnogi busnesau i ddatblygu eu presenoldeb a'u harlwy yn y Gymraeg. Mae hyn yn gwasanaethu i fodloni anghenion y 43.9% o'r boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg ond hefyd yn ystyriaeth bwysig yng ngallu busnesau i chwarae rhan allweddol yn nhirwedd ddiwylliannol ein sir.

3.2 Cyfleoedd Lleol

Yn ogystal â'r cyfleoedd lleol a nodir ochr yn ochr â'r heriau yn yr adran uchod, mae llawer o gyfleoedd wedi'u nodi yn y strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a restrir isod, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae Sir Gaerfyrddin yn eu hwynebu.

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Cenhadaeth 1: Arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero net

²¹Archwilio'r Rhagolygon Arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin

Gan edrych at 2030, ein nod yw gwneud De-orllewin Cymru yn arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy. Mae hynny'n golygu manteisio ar ein hasedau naturiol a'n galluoedd diwydiannol ac ymchwil a datblygu i adeiladu presenoldeb o bwys rhyngwladol mewn technolegau tanwydd yn y dyfodol ac i ysgogi datgarboneiddio ein sylfaen ddiwydiannol a'r economi eang.

Camau Gweithredu Allweddol:

- Gallu ychwanegol i lywio'r agenda yn ei blaen
- Datblygu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mawr y rhanbarth
- Denu a llywio buddsoddiad diwydiannol yn ei flaen
- Datgarboneiddio trafndiaeth a'r stoc tai

Cenhadaeth 2: Adeiladu sylfaen fusnes gref, wydn sydd wedi'i hymgorffori.

“Mae busnes yn ganolog i'n strategaeth hyd at 2030. Trwy ehangu'r cwmnïau presennol a sefydlu a denu rhai newydd y bydd swyddi newydd yn cael eu creu a thwf cynhyrchiant yn cael ei sicrhau. Mae hynny'n golygu cefnogi twf busnes cynaliadwy – sydd ar flaen y gad o ran technoleg ac arloesi ac ar draws yr economi.”

Camau Gweithredu Allweddol:

- Cymorth o ran mabwysiadu ac arloesi carlam (yn gysylltiedig ag argymhellion Cymru 4.0 mewn perthynas â chymorth busnes, sgiliau ac arloesi)
- 'Caffael blaengar' o fewn system datblygu cadwyn gyflenwi a busnes lleol

Cenhadaeth 3: Tyfu a chynnal cynnig 'profiad' De-orllewin Cymru

“Mae De-orllewin Cymru yn mwynhau amgylchedd gwych a chynnig o 'ansawdd bywyd' unigryw. Mae hwn yn ased allweddol i'r rhanbarth, ac yn un y mae'n rhaid i ni ei warchod a'i wella. Byddwn yn gwneud De-orllewin Cymru yn adnabyddus am ansawdd ac ehangder ei 'phrofiad', gan ddod ag ansawdd amgylcheddol trefol a gwledig, 'ansawdd bywyd' a diwylliant ynghyd. Bydd hyn yn cefnogi economi ymwelwyr o werth uchel - ond bydd hefyd dan berchnogaeth leol ac yn rhan ganolog o'n cynnig buddsoddi”.

Camau Gweithredu Allweddol:

- Buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu a'i gydlynu, gan gynnwys yng nghanol trefi a dinasoedd
- Cydbwysu mentrau ar raddfa ranbarthol, leol a chymunedol

Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (FRIW)

- **Blaenoriaeth 1: Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol**

“Rydym am ysgogi adferiad a ffyniant drwy gefnogi entrepreneuriaid, busnesau newydd a busnesau i greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n adlewyrchu egwyddorion Gwaith Teg Cymru. Byddwn yn helpu busnesau i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu a chryfhau cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau a mentrau cymdeithasol o bob maint, yn enwedig busnesau micro

i ganolig eu maint. Mae hyn yn cynnwys cefnogi busnesau yn eu hymdrechion i greu neu wella eu cyfran o'r farchnad allforio."

- **Blaenoriaeth 2: Lleihau'r Ffactorau sy'n Arwain at Anghydraddoldeb Economaidd**

"Rydym am gynyddu nifer y bobl sy'n gallu cymryd rhan mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, y maent yn cael cyflog teg amdano, gan sicrhau bod hwn yn cael ei rannu'n deg ar draws daearyddiaeth a demograffeg, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae tystiolaeth³⁹ yn dangos bod anghydraddoldeb yn cael effaith negyddol ar dwf economaidd a chanlyniadau cymdeithasol. Yn y tymor byr byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi'r rhai sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan effaith economaidd y pandemig Covid, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth ansicr a chyflog isel, menywod, pobl dduon, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig (BAME), a phobl anabl"

- **Blaenoriaeth 3: Cefnogi'r Newid i Economi Ddi-Garbon**

"Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes. Mae'r risgiau'n real i bob dinesydd a busnes ond maent yn fwy o risg i'r rhai sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y newid i economi ddi-garbon yn dod â chyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd glân, ynni-ffeithlon, swyddi o ansawdd a manteision i'r farchnad fyd-eang, yn ogystal â buddion i'n hamgylchedd, ein hiechyd, ein cyfalaf naturiol, a'n gwasanaethau ecosystem."

- **Blaenoriaeth 4: Cymunedau Iachach, Tecach, Mwy Cynaliadwy**

"Mae gweithlu sy'n iach ac yn hapus, a chymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n gryf ac yn wydn, yn asedau economaidd sydd o fudd i bawb. Ni fu'r cysylltiad rhwng llesiant a'r economi erioed yn gliriach. Rydym am helpu i sicrhau bod gan gymunedau lle a phobl y gwydnwch a'r strwythurau sydd eu hangen arnynt, fel y gall y bobl sy'n byw yma fyw bywydau hir, hapus a chyflawni eu potensial i gyfrannu'n gynhyrchiol at ein heconomi a'n cymdeithas."

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin (CERDP)

- **Thema 1 - Busnes**

"Diogelu ein busnesau presennol, cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn ein sectorau sylfaen a thwf i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol"

- **Thema 2 – Pobl**

"Amddiffyn swyddi, ymateb i ddiweithdra disgwylidig sylweddol, helpu pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi a fydd yn bodoli, a chreu cyflogaeth newydd gyda gwell sgiliau"

- **Thema 3 – Lle**

"Sicrhau dosbarthiad teg o gyfleoedd trwy fuddsoddi yn y seilwaith ac addasu ein hardaloedd twf strategol, canol trefi, yr economi wledig ac adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig"

Pedwar uchelgais blaenoriaeth trawsbynciol:

- Cysylltedd digidol hynod ddibynadwy, diwylliant a sgiliau digidol – gwella cysylltedd, mynd i'r afael â'r heriau cysylltiedig o ran defnyddio ac ymyrryd i wneud gwelliannau mewn cysylltedd digidol nawr ac yn y dyfodol.

- Sgiliau - cefnogi pobl a busnesau i ailhyfforddi, ail-sgilio, a gwella sgiliau trwy gyfuno dysgu traddodiadol, ar-lein a dysgu'n seiliedig ar waith.
- Economi werdd – ychwanegu gwerth economaidd drwy barhau i ddefnyddio adnoddau, a, lle mae gwastraff yn cael ei osgoi, buddsoddi mewn seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.
- Economi deg a chyfartal a chefnogaeth i'r Gymraeg a'i diwylliant – cefnogi diwylliant a llesiant pobl gyda chyflogaeth leol, deg, weddus a diogel

Archwilio'r Rhagolygon Arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin (EIPC)

Pwrpas yr astudiaeth hon oedd adolygu sefyllfa bresennol Sir Gaerfyrddin a llywio strategaeth arloesi lleol CSC yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r 4 cyfle canlynol yn cloi'r adroddiad ac maent wedi deillio o ymgynoriadau â rhanddeiliaid a dadansoddiadau dogfennol:

- **Cyfle 1** - Digidol: Gwella cysylltedd digidol a manteisio ar gyfleoedd digidol ledled Sir Gaerfyrddin
- **Cyfle 2** - Iechyd: Datblygu labordy byw gwasgaredig
- **Cyfle 3** - Economi Sylfaenol: Caffael bwyd cynaliadwy
- **Cyfle 4** - Economi Gylchol: Defnyddio dull Economi Gylchol ar gyfer yr Agenda Sero Net

3.4 CANLYNIADAU Y BYDD Y CYNLLUN BUDDSODDI YN EU CYFLAWNI DAN FLAENORIAETH BUDDSODDI CEFNOGI BUSNESAU LLEOL

Swyddi wedi'u creu

Swyddi wedi'u diogelu

Cynyddu nifer yr ymwelwyr

Mwy o ymwelwyr

Cyfraddau swyddi gwag is

Gostyngiadau nwyon tŷ gwydr

Nifer y busnesau newydd a grëwyd

Gwell canfyddiad o farchnadoedd

Mwy o gynaliadwyedd busnes

Cynnydd yn nifer y busnesau a gefnogir

Mwy o fuddsoddiad

Gwell canfyddiad o atyniadau

Nifer y busnesau sy'n cyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni

Nifer y sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth newydd

Nifer yr adeiladau sydd â gwell cysylltedd digidol

Nifer y busnesau sy'n mabwysiadu technolegau neu brosesau newydd i'r cwmni

Nifer y cynhyrchion newydd i'r farchnad

Nifer y busnesau ymchwil a datblygu gweithredol

Cynnydd yn nifer y busnesau bach a chanolig sy'n weithredol ym maes arloesi

Nifer y busnesau sy'n mabwysiadu cynhyrchion neu wasanaethau newydd neu well

Cynnydd yn nifer y cynlluniau arloesi a ddatblygwyd

Nifer y cwmnïau cam cynnar sy'n cynyddu eu refeniw ar ôl cael cymorth

Nifer y busnesau sy'n cymryd rhan mewn marchnadoedd newydd

Nifer y busnesau sy'n cymryd rhan mewn marchnadoedd newydd

Nifer y busnesau sy'n cynyddu eu capasiti allforio

Mwy o seilwaith ynni carbon isel neu ddi-garbon wedi'i osod

Nifer y busnesau sydd â gwell cynhyrchiant

Cynnydd yn nifer y prosiectau yn deillio o astudiaethau dichonoldeb a ariennir

Cynnydd yn nifer yr eiddo sy'n cael eu hamddiffyn yn well rhag llifogydd ac erydu arfordirol

3.5 YMYRIADAU A DDEFNYDDIR GAN Y RHANBARTH SY'N CWRDD Â'R FLAENORIAETH BUDDSODDI CEFNOGI BUSNESAU LLEOL

W16: Buddsoddi mewn marchnadoedd agored a gwelliannau i seilwaith y sector manwerthu a gwasanaethau yng nghanol trefi, gyda chymorth cofleidiol i fusnesau bach.

W17: Cyllid ar gyfer datblygu a hyrwyddo (masnach a defnyddwyr) yr economi ymwelwyr, megis atyniadau lleol, llwybrau, teithiau a chynhyrchion twristiaeth yn fwy cyffredinol

W18: Cefnogi Mabwysiadu Gwneud yn Gallach: Darparu cyngor arbenigol wedi'i deilwra, grantiau cyfatebol a hyfforddiant arweinyddiaeth i alluogi busnesau bach a chanolig ym maes gweithgynhyrchu i fabwysiadu datrysiadau technoleg ddigidol ddiwydiannol gan gynnwys deallusrwydd artifisial; roboteg a systemau ymreolaethol; gweithgynhyrchu ychwanegion; y rhyngwyd diwydiannol o bethau; realiti rhithwir; dadansoddeg data. Profwyd bod y cymorth hwn yn ysgogi lefelau uchel o

fuddsoddiad preifat mewn technolegau, sy'n ysgogi twf, cynhyrchiant, effeithlonrwydd a gwytnwch mewn gweithgynhyrchu.

W19: Cynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu ar lefel leol. Buddsoddiad i gefnogi lledaeniad gwybodaeth a gweithgareddau arloesi, mewn meysydd sy'n bwysig yn economaidd a meysydd sy'n dod i'r amlwg. Cefnogi masnacheiddio syniadau, annog cydweithio a chyflymu'r llwybr i'r farchnad fel bod mwy o syniadau'n troi'n arferion diwydiannol a masnachol. Buddsoddiad mewn canolfannau hyfforddi doethurol.

W20: Grantiau ymchwil a datblygu sy'n cefnogi datblygiad cynhyrchion a gwasanaethau arloesol. Grantiau i gynyddu capasiti ymchwil a lefel y cydweithio rhwng cwmnïau i rannu arfer gorau

W21: Cyllid ar gyfer datblygu a chefnogi seilwaith arloesi priodol ar lefel leol.

W22: Buddsoddi mewn seilwaith menter a phrosiectau datblygu safleoedd cyflogaeth/arloesedd. Gall hyn helpu i ddatgloi prosiectau datblygu safleoedd a fydd yn cefnogi twf mewn lleoedd.

W23: Cryfhau ecosystemau entrepreneuriaidd lleol, a chefnogi busnesau ar bob cam o'u datblygiad i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi, gan gynnwys drwy rwydweithiau lleol.

W24: Cyllid ar gyfer canolfannau hyfforddi newydd a gwelliannau i'r canolfannau hyfforddi presennol, cynigion cymorth busnes, 'deoryddion' a 'chyflymwyr' ar gyfer menter leol (gan gynnwys menter gymdeithasol) a all gefnogi entrepreneuriaid a busnesau newydd yn ystod camau cynnar eu datblygiad a thwf drwy gynnig cyfuniad o gwasanaethau, gan gynnwys rheoli cyfrifon, cyngor, adnoddau, hyfforddiant, hyfforddi, mentora a mynediad i weithle.

W25: Grantiau i helpu i leoedd ymgeisio am a chynnal digwyddiadau a chynadleddau busnes rhyngwladol sy'n cefnogi sectorau twf lleol ehangach

W26: Cefnogaeth i dyfu'r economi gymdeithasol leol, gan gynnwys busnesau cymunedol, cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.

W27: Cyllid i ddatblygu rhwydweithiau buddsoddwyr angel ledled y wlad.

W28: Grantiau Allforio i gefnogi busnesau i dyfu eu masnachu tramor, gan gefnogi cyflogaeth a buddsoddiad lleol.

W29: Cefnogi datgarboneiddio a gwella'r amgylchedd naturiol wrth dyfu'r economi leol. Mabwysiadu dull systemau cyfan o fuddsoddi mewn seilwaith i gyflawni datgarboneiddio effeithiol ar draws ynni, adeiladau a thrafnidiaeth a thu hwnt, yn unol â'n targed hinsawdd sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Cynyddu cryfderau lleol presennol neu ddatblygol mewn technolegau, nwyddau a gwasanaethau carbon isel i fanteisio ar y cyfle byd-eang cynyddol.

W30: Mesurau cymorth busnes i ysgogi twf cyflogaeth, yn enwedig mewn ardaloedd o ddiweithdra uwch.

W31: Cyllid i gefnogi astudiaethau dichonoldeb perthnasol

W32: Cyllid i gefnogi datblygiad busnesau bach i fod yn gwmnïau cynhyrchiol o faint canolig

W33: Buddsoddi mewn seilwaith cydnerthedd ac atebion seiliedig ar natur sy'n amddiffyn busnesau lleol ac ardaloedd cymunedol rhag peryglon naturiol gan gynnwys llifogydd ac erydu arfordirol.

3.6 PROSIECTAU POSIBL SY'N DOD O DAN FLAENORIAETH BUDDSODDI MEWN BUSNESAU LLEOL

Er mwy adeiladu ar ein profiad o ddarparu cymorth i fusnesau lleol, byddem yn ystyried y prosiectau canlynol fel blaenoriaeth i'r Sir, fel y nodir yn ein cynlluniau strategol allweddol yr ymgynghorwyd yn eang arnynt. Byddwn yn ystyried prosiectau eraill.

Cronfa Cychwyn Busnes a Thwf Busnes - cronfa cyfalaf/refeniw wedi'i thargedu i gefnogi datblygiad a thwf busnesau lleol ac i lywio cyflogaeth leol.

Cronfa twristiaeth, diwylliant a threftadaeth – cymorth i gynyddu effaith y sector ymwelwyr ar yr economi leol drwy wella profiad yr ymwelwyr mewn trefi a mannau pwysig i ymwelwyr ar draws Sir Gaerfyrddin.

Cronfa Datblygu Eiddo – pecyn o gymorth i gefnogi datblygwyr a pherchen-feddianwyr i fuddsoddi mewn adeiladu, ehangu ac adnewyddu eiddo i fodloni angen seilwaith busnesau lleol ac i fynd i'r afael â'r bwch hyfywedd cyfredol sy'n bodoli ar draws y rhanbarth.

Bydd pob un o'r cronfeydd busnes yn cael eu darparu ledled y Sir. Bydd meini prawf ar gyfer cronfeydd priodol yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â Phartneriaeth Adfywio Lleol Sir Gaerfyrddin.

4.0 RHAGLEN BLAENORIAETH BUDDSODDI A RHAGLEN LLUOSI POBL A SGILIAU

4.1 Heriau Lleol

Prif heriau:

- **Gormod o bobl heb unrhyw gymwysterau**
- **Cyfradd anweithgarwch economaidd uchel**
- **Lefel uwch na'r cyfartaledd o'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod bellaf oddi wrth y farchnad lafur**
- **Darpariaeth sgiliau sy'n anhyblyg ac nid yw bob amser yn bodloni anghenion cyflogwyr lleol**
- **Gyrfaoedd, cyngor ac arweiniad nad yw bob amser yn ystyried anghenion cyflogwyr lleol**

Anweithgarwch Economaidd

Sir Gaerfyrddin sydd â'r gyfradd anweithgarwch economaidd uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ar 28.3, mae'r gyfradd yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol Cymru (23.6) a'r DU (21.8)²². Mae'n debygol bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y gyfradd uwch hon, gan gynnwys;

- Mae'r sir yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o bobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor sy'n eu gwthio ymhellach oddi wrth y farchnad lafur.
- Mae'r sir yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o bobl sydd wedi ymddeol.
- Mae'r sir yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o fyfyrwyr.

Mae hyn yn rhwystr sylweddol i dwf yn Sir Gaerfyrddin, gan fod y rhai economaidd anweithgar yn cynrychioli ffynhonnell sylweddol o gyflenwad llafur sy'n elfen hanfodol o farchnad lafur sy'n gweithredu'n dda. Mae hyn hefyd yn peri pryder o ystyried y gall bod yn segur am gyfnod hir o amser gael effaith negyddol ar lesiant, iechyd a boddhad bywyd unigolyn. Mae hwn felly yn fater sylfaenol i fynd i'r afael ag ef yn yr uchelgais i wella cyfleoedd bywyd unigolion a thyfu'r economi leol.

Mae cyfleoedd i ddarparu cymorth dwys, cofleidiol, un-i-un i symud yr unigolion hyn yn nes at y farchnad lafur a fyddai'n darparu mecanweithiau wedi'u teilwra i wneud y symudiad o anweithgarwch i gyflogaeth yn gyfnod pontio mor syml â phosibl. Dylai hyn fod ar ffurf system gydlynol lle darperir arweiniad gyrfaoedd ar y cyd â nodi anghenion sgiliau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag uchelgeisiau'r unigolyn hwnnw ac anghenion yr economi leol. Mae hyn yn ymestyn i amlygu a hyrwyddo pwysigrwydd gwaith yn ogystal ag archwilio datblygiad yng nghyd-destun sgiliau sylfaenol, sgiliau parod ar gyfer gwaith a hyfforddiant galwedigaethol i leihau'r siawns o ollwng a digalonni.

Mae angen pwysleisio'r ymyriadau hyn (er nad yn gyfan gwbl) ar y rhai sy'n wynebu heriau unigryw wrth ymuno â'r farchnad lafur. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys;

- Pobl Hŷn,
- Menywod,
- Pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor,
- Pobl o leiafrifoedd ethnig,
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant,
- Unigolion ag anghenion cymhleth lluosog.

Lefelau Cymhwyster

Rhwystr i gyflogaeth i lawer yw diffyg cymwysterau neu sgiliau. Mae hyn yn berthnasol i'r rhai nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau o gwbl a'r rhai sy'n dymuno ail-sgilio neu wella sgiliau er mwyn gwella eu hunain a cheisio cyflogaeth lefel uwch neu swydd amgen. Mae hwn yn fater perthnasol i Sir Gaerfyrddin, gan fod gan y sir nifer uwch na'r cyfartaledd o bobl heb gymwysterau a chyfran is na'r cyfartaledd o bobl â chymwysterau lefel uwch.²³

Mae cyfle i gefnogi'r rhai heb unrhyw gymwysterau i ennill cymwysterau sgiliau sylfaenol a'r rheini hyd at lefel 2, a allai fod yn borth i gael gwaith ond hefyd cymwysterau lefel uwch. Mae'r

²² Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn (Rhag. 2021)

²³ Arolwg Poblogaeth Blyneddol SYG (Rhag. 2021)

sgiliau sylfaenol hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i); Saesneg, Mathemateg ac ESOL. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r bylchau yn narpariaeth bresennol yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru ac yn caniatáu ar gyfer datblygu ymyriadau ar lefel leol sy'n bodloni anghenion lleol.

Ymhellach, mae angen penodol i ddatblygu sgiliau digidol a chynyddu lefelau cynhwysiant digidol. Mae byd gwaith yn newid ac mae dibyniaeth ar dechnolegau digidol yn y gweithle yn cynyddu'n gyflym. Felly bydd darparu sgiliau digidol perthnasol a throsglwyddadwy i unigolion nid yn unig yn gwella eu cyflogadwyedd ond hefyd yn eu gwneud yn fwy hyderus o ran cyrchu gwasanaethau ehangach ar-lein.

Anghenion Sgiliau Lleol – Cyflenwad a Galw

Er mwyn creu marchnad lafur lleol sy'n tyfu ac yn wydn, mae'n hollbwysig darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr lleol i unigolion. Mae hyn yn ymwneud â'r sgiliau sydd eu hangen nawr a'r rhai y bydd eu hangen yn y dyfodol. Bydd agwedd flaengar yn sicrhau bod pobl leol yn gallu elwa ar gyfleoedd sy'n codi yn y dyfodol. Mae hwn hefyd yn gam hanfodol i leihau'r hyn a elwir yn '*draen dawn*' lle mae unigolion cymwys iawn yn gadael yr ardal i gymryd cyflogaeth â chyflog uwch yn rhywle arall.

Mae llawer o waith wedi'i wneud yn y maes hwn gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, gyda chyflogwyr o sectorau strategol allweddol Sir Gaerfyrddin yn adrodd am nifer o sgiliau y mae galw amdanynt a'r rhai a ddymunir.²⁴ Nodir y rhain isod;

Gweithgynhyrchu a Pheirianeg – Sgiliau datrys problemau, sgiliau arwain a rheoli, sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol, sgiliau mewn technoleg newydd.

Adeiladu – Sgiliau parod ar gyfer gwaith, sgiliau cyfathrebu, sgiliau datrys problemau a deheurwydd llaw.

Bwyd-amaeth - Sgiliau deall, sgiliau cyfathrebu, sgiliau arwain a rheoli a sgiliau gweithgynhyrchu bwyd.

Ariannol, Proffesiynol a Digidol – Sgiliau TG uwch/arbenigol, sgiliau codio/datblygu gwe, sgiliau mewn technoleg newydd a sgiliau TG sylfaenol.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Sgiliau gofal iechyd, sgiliau cyfathrebu, sgiliau TG sylfaenol a sgiliau mewn technoleg newydd.

Gwasanaethau Cyhoeddus – Sgiliau TG uwch a sylfaenol, datrys problemau, sgiliau Cymraeg llafar, sgiliau cyfathrebu, sgiliau arwain a rheoli a sgiliau gyrru Cerbydau Nwyddau Trwm /Cerbydau Nwyddau Mawr.

Twristiaeth, Hamdden a Manwerthu – Sgiliau marchnata, sgiliau cogydd/cegin, sgiliau TG uwch a sylfaenol a sgiliau codio/datblygu gwe.

Diwydiannau Creadigol – Sgiliau TG uwch a sylfaenol, sgiliau mewn technoleg newydd, sgiliau entrepreneuriaidd, codio/datblygu gwe, sgiliau datblygu cynnwys creadigol a sgiliau marchnata.

O ystyried yr anghenion sgiliau hyn, mae'n amlwg bod cyfleoedd i ganolbwyntio ar gyflwyno sgiliau mewn rhai meysydd allweddol, gyda'r dystiolaeth hon yn cadarnhau ymhellach yr angen i ddatblygu sgiliau parod digidol a chyffredinol unigolion i weithio. Gellid mynd i'r afael

²⁴ Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol – Dadansoddiad o Effeithiau Covid ar Dde-orllewin Cymru (2021)

â'r rhain trwy gyflwyno sgiliau sylfaenol hyd at lefel 2 gyda sgiliau mwy arbenigol yn cael eu cyflwyno trwy ddulliau eraill megis dysgu seiliedig ar waith neu drwy gyflwyno galwedigaethol.

Gan weithio ar y cyd â darparwyr lleol, byddai cymorth yn fodd i ariannu bylchau yn y ddarpariaeth sgiliau lleol ac archwilio dulliau darparu amgen. Gallai hyn fod ar ffurf cyflwyniad cryno, yn seiliedig ar fodiwlau, o natur achrededig a heb ei hachredu. Mae hyn yn creu system sgiliau sy'n arloesol ac yn hyblyg ei dull o weithredu ac sy'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr ac argymhellion a wnaed gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol.

O ganlyniad i boblogaeth hŷn Sir Gaerfyrddin mae cyfle hefyd i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i'r rhai mewn cyflogaeth i gael mynediad at ddarpariaeth sgiliau. Byddai hyn yn lleihau nifer yr unigolion medrus sy'n cael eu colli o'r farchnad lafur ac yn cefnogi cadw mewn rhai sectorau lle mae gweithlu sy'n heneiddio yn bryder. Mae'r materion hyn yn fwy difrifol (ond nid yn gyfyngedig) yn y sectorau Adeiladu a Gweithgynhyrchu a Pheirianeg.²⁵

Datblygiadau Gwyrdd

Mae gan Sir Gaerfyrddin nifer o uchelgeisiau sy'n cyd-fynd â themâu buddsoddi cymorth cymunedau a lleoedd a busnes o ran yr agenda Gwyrdd. Mae'n hollbwysig felly bod datblygiadau sgiliau o fewn y meysydd hyn yn cael eu hystyried. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer y sectorau Adeiladu a Pheirianeg a Gweithgynhyrchu lle mae anghenion sgiliau yn y dyfodol yn ymwneud â sgiliau peirianeg arbenigol, sgiliau ôl-osod, sgiliau gweithgynhyrchu doeth a sgiliau ynni adnewyddadwy.

Y Gymraeg

Wrth ystyried y ddarpariaeth sgiliau yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, rhaid ystyried datblygu darpariaeth sy'n galluogi unigolion i ymgymryd â dysgu yn eu dewis iaith. Gyda 43.9% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg mae dadl glir y byddai'r galw yn bodoli.

Mae hyn hefyd yn gwasanaethu i fodloni anghenion cyflogwyr lleol lle mae sgiliau Cymraeg wedi'u hamlygu'n bwysig gan y sectorau Diwydiannau Creadigol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Manwerthu, Twristiaeth a Hamdden.

Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaeodd

Mae tystiolaeth yn dangos bod sawl sector allweddol wedi ac yn parhau i wynebu heriau recriwtio. Mae nifer o faterion yn arwain at greu'r heriau recriwtio hyn, gyda diffyg sgiliau a'r canfyddiad mai sectorau yw'r prif ffactorau sy'n cyfrannu.²⁶

Mae gyrfaeodd, cyngor ac arweiniad yn chwarae rhan allweddol wrth chwalu mythau a gwella canfyddiadau sectorau. Mae'r sectorau sy'n adrodd eu bod yn cael eu heffeithio'n arbennig gan hyn yn cynnwys; Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Twristiaeth, Hamdden a Manwerthu, Adeiladu a Bwyd-Amaeth. Mae'r rhain i gyd yn sectorau o bwysigrwydd strategol i Sir Gaerfyrddin, felly mae'n hollbwysig bod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd a gyflwynir gan y diwydiannau hyn. Mae hwn yn gam pwysig yn y broses o greu llif o dalent sydd â'r sgiliau

²⁵RLSP – Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol (2019)

²⁶RLSP – Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol (2019)

dymunol i'w bwydo i'r farchnad lafur, a fyddai o fudd i fusnesau lleol ac yn eu tro i'n heconomi leol.

I'r perwyl hwn, mae cyfle i ddarparu gyrfaoedd, cyngor ac arweiniad mewn ffordd fwy cydlynol ar lefel leol, gan ystyried anghenion sgiliau cyflogwyr lleol. Bydd gweithio ar y cyd â sefydliadau sydd eisoes yn darparu gwasanaethau o'r fath yn lleihau dyblygu ac yn ategu'r hyn a gynigir eisoes.

Dylai'r broses o ddarparu gyrfaoedd, cyngor ac arweiniad hefyd ystyried proffiliau rhyw lawer o sectorau a cheisio chwalu'r stereoteipiau rhyw nodweddiadol sy'n gysylltiedig â rhai sectorau. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhywiau sy'n amlwg ar draws llawer o feysydd yr economi sy'n ymwneud â chyflogaeth, y bwloch cyflog rhwng y rhywiau a chyfleoedd i ffynnu'n fwy cyffredinol.

Cyfoethogi a Chyfleoedd Gwirfoddoli

Mae dadl i awgrymu y gallai darpariaeth cyfleoedd cyfoethogi a gwirfoddoli ddod â buddion tebyg i'r rhai a ddarperir gan gyfleoedd profiad gwaith. Yn draddodiadol, mae profiad gwaith wedi cael ei ystyried yn rhywbeth y mae pobl ifanc yn ei wneud fel rhan o'u haddysg statudol, ond mae manteision i'w gwireddu i bob grŵp oedran a phobl o bob cefndir. Gall sesiynau blasu mewn diwydiannau perthnasol leihau'r nifer sy'n gadael ac amlygu'r manteision ehangach i'w gwireddu drwy fod mewn gwaith yn hytrach na ffocws traddodiadol gwobr ariannol. Gellir dweud yr un peth am leoliadau gwirfoddoli o fewn y trydydd sector niferus yn y sir a grwpiau cymunedol llai. Byddai cymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath yn darparu dull fesul cam o fynd i mewn i'r farchnad lafur, gan ddileu rhywfaint o'r pwysau y gallai'r rhai sydd bellaf i ffwrdd ei deimlo wrth drosglwyddo'n syth i gyflogaeth â thâl.

Mae cyfleoedd i archwilio ymarferoldeb dull o'r fath yn Sir Gaerfyrddin, gan edrych ar wersi a ddysgwyd o fentrau tebyg.

4.2 CYFLEOEDD LLEOL

Yn ogystal â'r cyfleoedd lleol a nodir ochr yn ochr â'r heriau yn yr adran uchod, mae llawer o gyfleoedd wedi'u nodi yn y strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a restrir isod, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae Sir Gaerfyrddin yn eu hwynebu.

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Cenhadaeth 1: Arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero net

Gan edrych at 2030, ein nod yw gwneud De-orllewin Cymru yn arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy. Mae hynny'n golygu manteisio ar ein hasedau naturiol a'n galluoedd diwydiannol ac ymchwil a datblygu i adeiladu presenoldeb o bwys rhyngwladol mewn technolegau tanwydd yn y dyfodol ac i ysgogi datgarboneiddio ein sylfaen ddiwydiannol a'r economi eang.

Camau Gweithredu Allweddol:

- Gallu ychwanegol i lywio'r agenda yn ei blaen
- Datblygu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mawr y rhanbarth
- Denu a llywio buddsoddiad diwydiannol yn ei flaen
- Datgarboneiddio trafndiaeth a'r stoc tai

Cenhadaeth 2: Adeiladu sylfaen fusnes gref, wydn sydd wedi'i hymgorffori.

“Mae busnes yn ganolog i'n strategaeth hyd at 2030. Trwy ehangu'r cwmnïau presennol a sefydlu a denu rhai newydd y bydd swyddi newydd yn cael eu creu a thwf cynhyrchiant yn cael ei sicrhau. Mae hynny'n golygu cefnogi twf busnes cynaliadwy – sydd ar flaen y gad o ran technoleg ac arloesi ac ar draws yr economi.”

Camau Gweithredu Allweddol:

- Cymorth o ran mabwysiadu ac arloesi carlam (yn gysylltiedig ag argymhellion Cymru 4.0 mewn perthynas â chymorth busnes, sgiliau ac arloesi)
- 'Caffael blaengar' o fewn system datblygu cadwyn gyflenwi a busnes lleol

Cenhadaeth 3: Tyfu a chynnal cynnig 'profiad' De-orllewin Cymru

“Mae De-orllewin Cymru yn mwynhau amgylchedd gwych a chynnig o 'ansawdd bywyd' unigryw. Mae hwn yn ased allweddol i'r rhanbarth, ac yn un y mae'n rhaid i ni ei warchod a'i wella. Byddwn yn gwneud De-orllewin Cymru yn adnabyddus am ansawdd ac ehangder ei 'phrofiad', gan ddod ag ansawdd amgylcheddol trefol a gwledig, 'ansawdd bywyd' a diwylliant ynghyd. Bydd hyn yn cefnogi economi ymwelwyr o werth uchel - ond bydd hefyd dan berchnogaeth leol ac yn rhan ganolog o'n cynnig buddsoddi”.

Camau Gweithredu Allweddol:

- Buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu a'i gydlynu, gan gynnwys yng nghanol trefi a dinasoedd
- Cydbwysu mentrau ar raddfa ranbarthol, leol a chymunedol

Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (FRIW)

• Blaenoriaeth 1: Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol

“Rydym am ysgogi adferiad a ffyniant drwy gefnogi entrepreneuriaid, busnesau newydd a busnesau i greu a chadw swyddi cynaliadwy sy'n adlewyrchu egwyddorion Gwaith Teg Cymru. Byddwn yn helpu busnesau i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu a chryfhau cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau a mentrau cymdeithasol o bob maint, yn enwedig busnesau micro i ganolog eu maint. Mae hyn yn cynnwys cefnogi busnesau yn eu hymdrechion i greu neu wella eu cyfran o'r farchnad allforio.”

• Blaenoriaeth 2: Lleihau'r Ffactorau sy'n Arwain at Anghydraddoldeb Economaidd

“Rydym am gynyddu nifer y bobl sy'n gallu cymryd rhan mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, y maent yn cael cyflog teg amdano, gan sicrhau bod hwn yn cael ei rannu'n deg ar draws daearyddiaeth a demograffeg, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae

tystiolaeth³⁹ yn dangos bod anghydraddoldeb yn cael effaith negyddol ar dwf economaidd a chanlyniadau cymdeithasol. Yn y tymor byr byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi'r rhai sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan effaith economaidd y pandemig Covid, yn enwedig pobl ifanc, y rhai mewn cyflogaeth ansicr a chyflog isel, menywod, pobl dduon, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig (BAME), a phobl anabl”

- **Blaenoriaeth 3: Cefnogi'r Newid i Economi Ddi-Garbon**

“Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes. Mae'r risgiau'n real i bob dinesydd a busnes ond maent yn fwy o risg i'r rhai sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y newid i economi ddi-garbon yn dod â chyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd glân, ynni-ffeithlon, swyddi o ansawdd a manteision i'r farchnad fyd-eang, yn ogystal â buddion i'n hamgylchedd, ein hiechyd, ein cyfalaf naturiol, a'n gwasanaethau ecosystem.”

- **Blaenoriaeth 4: Cymunedau Iachach, Tecach, Mwy Cynaliadwy**

“Mae gweithlu sy'n iach ac yn hapus, a chymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n gryf ac yn wydn, yn asedau economaidd sydd o fudd i bawb. Ni fu'r cysylltiad rhwng llesiant a'r economi erioed yn gliriach. Rydym am helpu i sicrhau bod gan gymunedau lle a phobl y gwydnwch a'r strwythurau sydd eu hangen arnynt, fel y gall y bobl sy'n byw yma fyw bywydau hir, hapus a chyflawni eu potensial i gyfrannu'n gynhyrchiol at ein heconomi a'n cymdeithas.”

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin (CERDP)

- **Thema 1 - Busnes**

“Diogelu ein busnesau presennol, cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn ein sectorau sylfaen a thwf i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol”

- **Thema 2 – Pobl**

“Amddiffyn swyddi, ymateb i ddiweithdra disgwylidig sylweddol, helpu pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi a fydd yn bodoli, a chreu cyflogaeth newydd gyda gwell sgiliau”

- **Thema 3 – Lle**

“Sicrhau dosbarthiad teg o gyfleoedd trwy fuddsoddi yn y seilwaith ac addasu ein hardaloedd twf strategol, canol trefi, yr economi wledig ac adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig”

Pedwar uchelgais blaenoriaeth trawsbynciol:

- Cysylltedd digidol hynod ddibynadwy, diwylliant a sgiliau digidol – gwella cysylltedd, mynd i'r afael â'r heriau cysylltiedig o ran defnyddio ac ymyrryd i wneud gwelliannau mewn cysylltedd digidol nawr ac yn y dyfodol.
- Sgiliau - cefnogi pobl a busnesau i ailhyfforddi, ail-sgilio, a gwella sgiliau trwy gyfuno dysgu traddodiadol, ar-lein a dysgu'n seiliedig ar waith.
- Economi werdd – ychwanegu gwerth economaidd drwy barhau i ddefnyddio adnoddau, a, lle mae gwastraff yn cael ei osgoi, buddsoddi mewn seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.
- Economi deg a chyfartal a chefnogaeth i'r Gymraeg a'i diwylliant – cefnogi diwylliant a llesiant pobl gyda chyflogaeth leol, deg, weddus a diogel

Archwilio'r Rhagolygon Arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin (EIPC)

Pwrpas yr astudiaeth hon oedd adolygu sefyllfa bresennol Sir Gaerfyrddin a llywio strategaeth arloesi lleol CSC yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r 4 cyfle canlynol yn cloi'r adroddiad ac maent wedi deillio o ymgynoriadau â rhanddeiliaid a dadansoddiadau dogfennol:

- **Cyfle 1** - Digidol: Gwella cysylltedd digidol a manteisio ar gyfleoedd digidol ledled Sir Gaerfyrddin
- **Cyfle 2** - Iechyd: Datblygu labordy byw gwasgaredig
- **Cyfle 3** - Economi Sylfaenol: Caffael bwyd cynaliadwy
- **Cyfle 4** - Economi Gylchol: Defnyddio dull Economi Gylchol ar gyfer yr Agenda Sero Net

4.3 CANLYNIADAU Y BYDD Y CYNLLUN BUDDSODDI YN EU CYFLAWNI DAN FLAENORIAETH BUDDSODDI POBL A SGILIAU

Nifer yr unigolion economaidd anweithgar sy'n derbyn budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael yn dilyn cymorth.

Mwy o gyfranogwyr gweithredol neu barhaus o fuddiolwyr Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU mewn grwpiau cymunedol [a/neu] mwy o gyflogadwyedd trwy ddatblygu sgiliau rhyngpersonol.

Cyfran uwch o gyfranogwyr â sgiliau sylfaenol (Saesneg, mathemateg, digidol ac ESOL).

Nifer y bobl mewn cyflogaeth â chymorth [a] nifer y bobl sy'n ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd prif ffrwd.

Nifer y bobl sy'n parhau i ymgysylltu â chymorth gweithiwr allweddol a Gwasanaethau ychwanegol.

Nifer y bobl sy'n chwilio am swydd yn dilyn cymorth.

Nifer y bobl mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, yn dilyn cymorth.

Nifer y bobl sy'n cynnal cyflogaeth am 6 mis.

Mwy o gyflogaeth, sgiliau a/neu amcanion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi'u hymgorffori mewn llywodraethu corfforaethol ardal leol.

Nifer y bobl mewn addysg/hyfforddiant

Cynnydd yn nifer y bobl â sgiliau sylfaenol (Saesneg, mathemateg, digidol ac ESOL).

Llai o bobl yn wynebu rhwystrau strwythurol i gyflogaeth ac i ddarpariaeth sgiliau.

Nifer cynyddol o bobl yn gyfarwydd â disgwyliadau cyflogwyr, gan gynnwys safonau ymddygiad yn y gweithle.

Llai o bobl yn wynebu rhwystrau strwythurol i gyflogaeth ac i ddarpariaeth sgiliau.

Nifer y bobl sy'n ennill cymhwyster neu'n cwblhau cwrs yn dilyn cymorth.

Nifer y bobl sy'n ennill cymwysterau, trwyddedau a sgiliau.

Nifer yr unigolion economaidd gweithgar sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant sgiliau prif ffrwd.

Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn cymorth sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau.

Nifer y bobl sy'n hyfedr mewn sgiliau cyn cyflogaeth a rhyngpersonol (perthynas, trefniadaeth a rheoli dichter, cyfweld, CV ac ysgrifennu ceisiadau am swydd).

Lluosi yn unig - Cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n ennill cymwysterau mathemateg hyd at, ac yn cynnwys, Lefel 2.

Lluosi yn unig – Cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn cymwysterau a chysiau mathemateg hyd at, ac yn cynnwys, Lefel 2

4.4 YMYRIADAU CFFGDU A DDEFNYDDIR I GWRDD Â'R FLAENORIAETH BUDDSODDI MEWN POBL A SGILIAU

W34: Cymorth cyflogaeth i bobl economaidd anweithgar: Cymorth un-i-un dwys a chofleidiol i symud pobl yn nes at ddarpariaeth prif ffrwd ac i gael a chadw cyflogaeth, gan gynnwys cymorth cofleidiol i bobl sy'n dilyn prentisiaethau, wedi'i ategu gan sgiliau bywyd a sylfaenol ychwanegol a/neu arbenigol a chymorth sgiliau (digidol, Saesneg, mathemateg* ac SSIE) lle mae bylchau yn y ddarpariaeth leol. Cyllid ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol i bobl economaidd anweithgar, lle mae'r ddarpariaeth yn ychwanegol at yr hyn a ariennir drwy ddarpariaeth prif ffrwd.

* drwy MultiPLY

W35: Cysiau gan gynnwys sgiliau sylfaenol (digidol, Saesneg, mathemateg (trwy MultiPLY) ac ESOL), a ddarpariaeth sgiliau bywyd a sgiliau gyrfa** ar gyfer pobl nad ydynt yn economaidd anweithgar ac nad ydynt yn gallu cael mynediad at hyfforddiant arall neu gymorth cofleidiol a nodir uchod. Wedi'i ategu gan gymorth ariannol i ddysgwyr gofrestru ar gyrsoedd a chwblhau cymwysterau.

**lle nad yw'n cael ei fodloni drwy ddarpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Lywodraeth Cymru.

W36: Gweithgareddau fel cyfoethogi a gwirfoddoli i wella cyfleoedd a hybu llesiant.

W37: Ymyriadau i gynyddu lefelau cynhwysiant digidol, gyda ffocws ar sgiliau digidol hanfodol, cyfathrebu manteision o fynd (yn ddiogel) ar-lein, ac mewn cymorth cymunedol i roi'r hyder a'r ymddiriedaeth i ddefnyddwyr aros ar-lein.

W38: Cefnogaeth wedi'i theilwra i helpu pobl mewn cyflogaeth, nad ydynt yn cael eu cefnogi gan ddarpariaeth prif ffrwd i fynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad at gyrsoedd addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cadw grwpiau sy'n debygol o adael y farchnad lafur yn gynnar.

W39: Cefnogaeth i ardaloedd lleol i gyllido anghenion sgiliau lleol. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau technegol a galwedigaethol a chyrsgiau hyd at lefel 2 a hyfforddiant ar gyfer trwyddedau galwedigaethol sy'n berthnasol i anghenion ardal leol a chymwysterau gwerth uchel lle mae angen sgiliau ychwanegol na ellir eu diwallu drwy gyllid prif ffrwd.

W40: Cyrsgiau sgiliau gwyrdd wedi'u targedu ar sicrhau bod gennym y gweithlu medrus i gyflawni uchelgais sero net y llywodraeth a'r uchelgeisiau amgylcheddol ehangach.

W41: Ailhyfforddi ac uwchsgilio cymorth i'r rheini mewn sectorau carbon uchel, gan ganolbwyntio'n benodol ar drosglwyddo i swyddi gwyrdd, a rhai Diwydiant 4.0 a 5.0.

W42: Cyllid i gefnogi sgiliau digidol lleol.

W43: Cyllid i gefnogi ymgysylltu a datblygu sgiliau meddalach ar gyfer pobl ifanc, mewn perthynas â gwaith Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio.

Ymyriadau y rhaglen Multiplly

W44: Cyrsgiau wedi'u cynllunio i gynyddu hyder gyda rhifau i'r bobl sydd angen y camau cyntaf tuag at gymwysterau ffurfiol.

W45: Cyrsgiau i rieni sydd eisieu cynyddu eu sgiliau rhifedd er mwyn helpu eu plant, a helpu gyda'u dilyniant eu hunain.

W46: Cyrsgiau wedi'u hanelu at garcharorion, y rhai a ryddhawyd yn ddiweddar o'r carchar neu ar drwydded dros dro

W47: Cyrsgiau wedi'u hanelu at bobl na allant wneud cais am swyddi penodol oherwydd diffyg sgiliau rhifedd ac/neu annog pobl i uwchsgilio er mwyn cael mynediad at swydd/gyrfa benodol.

W48: Modiwlau mathemateg perthnasol ychwanegol wedi'u hymgorffori mewn cyrsiau galwedigaethol eraill.

W49: Rhaglenni arloesol yn cael eu darparu ar y cyd â chyflogwyr – gan gynnwys cyrsiau sydd wedi'u cynllunio i gwmpasu sgiliau rhifedd penodol sy'n ofynnol yn y gweithle.

W50: Cyrsgiau dwys a hyblyg newydd wedi'u targedu ar bobl heb Lefel 2 mewn mathemateg yng Nghymru, sy'n arwain at gymhwyster cyfatebol (am ragor o wybodaeth am gymwysterau cyfatebol, gweler 'Gall Cymwysterau groesi ffiniau' (sqa.org.uk))

W51: Cyrsgiau sydd wedi'u cynllunio i helpu pobl i ddefnyddio rhifedd i reoli eu harian.

W52: Cyrsgiau wedi'u hanelu at bobl 19 oed neu hŷn sydd ar fin gadael, neu sydd newydd adael, y system ofal

W53: Gweithgareddau, cyrsiau neu ddarpariaeth a ddatblygwyd mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol a phartneriaid eraill gyda'r nod o ymgysylltu â'r dysgwyr anoddaf eu cyrraedd – er enghraifft, y rheini nad ydynt yn y farchnad lafur neu grwpiau eraill y nodwyd eu bod mewn angen yn lleol.

4.5 PROSIECTAU POSIBL SY’N DOD O DAN FLAENORIAETH BUDDSODDI POBL A SGILIAU

Sir Gaerfyrddin sydd â'r gyfradd anweithgarwch economaidd uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ar 28.3, mae'r gyfradd yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol Cymru (23.6) a'r DU (21.8). Blaenoriaeth allweddol felly yw mynd i'r afael â hyn drwy'r mentrau canlynol:

Cefnogi pobl i mewn i waith - Rhaglen bwrpasol o gymorth wedi'i deilwra i leihau anweithgarwch economaidd ac i gefnogi'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn ôl i waith. Bydd y prosiect yn cynnig dewislen o gyfleoedd hyfforddi gan gynnwys mynediad at sgiliau sylfaenol, cymorth cyflogadwyedd, mentora a lleoliadau gwaith i wella canlyniadau cyflogaeth ar gyfer carfannau penodol sy'n wynebu rhwystrau yn y farchnad lafur gan gynnwys unigolion 50 oed a hŷn.

Darpariaeth ymgysylltu ieuencid – darpariaeth cyn ac ôl-16 i gefnogi pobl ifanc i gyrraedd canlyniadau cadarnhaol. Byddai hyn yn golygu datblygu rhaglen o weithgareddau i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc. Byddai'r prosiect yn gweithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o fod yn Bobl Ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) neu blant a phobl ifanc sydd eisoes yn NEET gan ddefnyddio dulliau cymorth ieuencid ataliol i ymgysylltu â phobl sydd yn aml ag ystod o anghenion cymhleth. Bydd y prosiect yn cynnwys cyfres o becynnau cymorth ieuencid pwrpasol wedi'u cynllunio i gefnogi'r unigolyn tuag at ganlyniadau gwell. O fewn y cynnig bydd nifer o swyddi gan gynnwys y rhain yn gysylltiedig â digidol a chyfryngau; iechyd a llesiant emosiynol; a gwaith ieuencid.

Mae prosiectau o'r natur hon wedi'u cyflawni'n llwyddiannus yn flaenorol. Bydd y mentrau hyn yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd o brosiectau blaenorol o'r natur hon sydd wedi'u cynnal yn llwyddiannus ar draws y Sir.

Bydd eraill hefyd yn cael eu hystyried.